**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 24 Hydref 2000
**Amser:** 9.30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol**

| | |
|---|---|
| Dr Dai Lloyd, Cadeirydd Gweithredol | (Plaid Cymru) |
| Nick Bourne | (Ceidwadwyr) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Karen Sinclair | (Llafur) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Dylan Hughes | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Clerc Cynorthwyol y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Huw Lewis a John Marek

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi: LEG-22-2000 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2000.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod, fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, wedi anfon llythyr pellach (dyddiedig 18 Hydref) at y Llywydd yn ymwneud â chyhoeddiad hwyr deddfwriaeth y Cynulliad. Ailadroddodd y llythyr y broblem na chyhoeddwyd deddfwriaeth mewn nifer o achosion tan ar ôl iddi ddod i rym. Dosbarthwyd copi o’r llythyr, a oedd yn cynnwys rhestr o ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd ers mis Awst, i’r aelodau.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod nifer o aelodau wedi datgan diddordebau megis fel llywodraethwyr ysgol, aelodau o awdurdodau lleol ac ati yn y cyfarfod diwethaf, a nodwyd hynny yn y cofnodion, fel sy’n briodol. Fodd bynnag, dywedodd fod cyngor wedi’i dderbyn gan yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol yn nodi nad oedd angen i’r aelodau ddatgan y diddordebau hyn

gan fod y Pwyllgor yn ymwneud â dilysrwydd deddfwriaeth y Cynulliad a'r broses o'i drafftio, yn hytrach nag ar agweddau ar bolisi.

**Eitem 3: Gorchmynion Cynulliad i'w Hystyried**

**LC129 – Rheoliadau'r Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000**
3.1 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i'r pwyllgor.

3.2 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr aelodau fod yna faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag roedd y rhain i'w diwygio o dan RhS22.12A gan y Memorandwm Cywiriadau. Nododd Mr Hughes ei fod yn anffodus i'r Rheolau Sefydlog gael eu torri gan fod y Memorandwm eisoes wedi'u gosod ger bron y Cynulliad ar 18fed Hydref 2000 yn nodi bod y rheoliadau wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Deddfau ar y 24ain Hydref a bod y cywiriadau wedi'u cytuno arnynt, gan achub y blaen yn glir ar farn y Pwyllgor. Awgrymodd fod hon yn dor-rheol dibwys y gellid ei datrys trwy ailosod ac ail-ddyddio'r Memorandwm. Cytunodd y Pwyllgor y gellid defnyddio'r Memorandwm Cywiriadau a chytunwyd y dylid ei ailosod bellach.

3.3 Cododd yr aelodau nifer o bwyntiau ychwanegol gan fynegi pryder nad yw darpariaethau penodol y Cynlluniau'n ymddangos ar wyneb y rheoliadau, ond yn hytrach yn cael eu gadael i'w penderfynu arnynt. Un enghraifft o hyn oedd nad oedd diffiniad ar gyfer y rheiny a allai ymgymryd â'r gwaith. Gobaith y Pwyllgor oedd y byddai camau diogelu gweinyddol digonol yn eu lle i sicrhau na allai masnachwyr diegwyddor fanteisio ar y cynlluniau. Cynhwysir manylion pellach yn yr adroddiad.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliad drafft hwn fel LC129 (Adroddiad).

3.4 Yn ystod trafodaeth cydnabuwyd y gallai dryswch godi dros y defnydd o'r teitlau Prif Weinidog/Prif Ysgrifennydd a Gweinidog Cynulliad/Ysgrifennydd Cynulliad. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu er mwyn ceisio cael eglurhad, yn arbennig mewn achosion pan fo angen i aelodau o'r Cabinet lofnodi dogfennau cyfreithiol. Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Frys a allai gael eu llofnodi gan Weinidog. Mynegodd yr Athro Bourne bryder y dylid parhau i ddefnyddio'r term 'Ysgrifennydd' os yw'r sefyllfa gyfreithiol yn ansicr. **Gweithredu: Clerc.**

**Eitem 4: Adroddiad Drafft Blynyddol y Pwyllgor Deddfau**
4.1 Cytunodd yr aelodau fod yr Adroddiad Drafft Blynyddol yn darparu trosolwg defnyddiol o flwyddyn gyntaf gwaith y Pwyllgor ac y dylid ei osod ger bron y Cynulliad fel papur gwybodaeth ar ôl iddo gael ei gyfieithu.

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 31 Hydref 2000 pan fyddai dau ddarn o ddeddfwriaeth i'w

hystyried.

**Adroddiadau a Atodir**

- LC129